Dysgu cyd-fyw

(penderfyniad / dysgu cyd-fyw / gweld cyfle)

Disgwyliai tlodion Madagasgar, ynys oddi ar arfordir dwyreiniol Affrica, am offeiriad i ddod yno i'w cynorthwyo. Bob dydd byddai'r bobl yn gofyn, "Ydi'r offeiriad wedi cyrraedd?" Ond doedd dim sôn am unrhyw un. Mae'n bur debyg y byddai'r offeiriad yn dod o un o wledydd Ewrop. Roedd disgwyl mawr amdano.

Un diwrnod dyma'r offeiriad yn cyrraedd, y Tad Pedro Opeka. Roedd wedi cael ei ddwyn i fyny yn yr Ariannin. Un o'r pethau cyntaf a ddywedodd wrth ei bobl oedd, "Mae Duw wedi rhoi talent arbennig i mi. Mae wedi rhoi'r ddawn i mi adeiladu tai ac adeiladau eraill."

Cyn iddo ddod yn offeiriad roedd wedi bod yn brentis yn y gwaith adeiladu. Ei dasg gyntaf oedd codi tŷ i deulu tlawd yn yr Andes. Pan ddaeth yn offeiriad yn Urdd Sant Vincent de Paul, roedd yn dal ati i adeiladu a chodi tai i'r tlodion yn Buenos Aires.

Cyrhaeddodd y Tad Pedro Ynys Madagasgar ym 1970. Ac yntau'n ddim ond 22 oed cododd ysgol i blant y tlodion. Yn Nhachwedd 1989 penderfynodd symud allan o Antananarivo i'r mynydd-dir lle roedd llawer o bobl dlawd yn cyd-fyw. Yma dechreuodd ar broject newydd sbon, sef Project Akamason (ffrind da), O'r cychwyn roedd hwn yn broject ymarferol: codi pentrefi er mwyn rhoi cymorth i bobl a phlant oedd yn wynebu tlodi dirfawr.

Ond roedd rheolau roedd yn rhaid i'r teuluoedd eu hwynebu. Roedd tair prif reol:

- roedd yn rhaid i'r plant fynychu'r ysgol yn ddyddiol
- roedd yn rhaid i'r teuluoedd weithio er lles y pentref
- roedd yn rhaid cadw at reolau – dim dwyn, dim alcohol

Ar y cychwyn roedd hyn yn anodd iawn i'r pentrefwyr newydd. Roedd y plant wedi arfer rhedeg yn wyllt yn y mynydd-dir o gwmpas. Ond roedd hyn yn anodd iawn i'r oedolion hefyd. Yn yr amser a fu roedd pob unigolyn wedi rheibio beth bynnag oedd ar gael. Yn wir, dyma'r unig ffordd roedden nhw'n gallu byw.

"Rydw i yn ei chael hi'n anodd iawn i ddod i delerau â'r rheolau yma," meddai un wraig.

"Rydw innau hefyd," meddai gwraig arall. "Yr hyn sy'n anodd i mi ydi cael y plant yma i fynd i'r ysgol bob dydd. Maen nhw

wedi arfer rhedeg o gwmpas ond mae'n rhaid i mi ddweud fod dysgu darllen a sgwennu yn yr ysgol wedi gwneud lles mawr iddyn nhw."

"Mae'r plant acw'n dechrau dod i delerau â disgyblaeth yn yr ysgol," meddai mam arall.

O dipyn i beth roedd trigolion y pentref yn dod i ddeall ei gilydd a dysgu cyd-fyw. Ar y Sul byddai'r Tad Pedro yn gwahodd y pentrefwyr i ymgynnull yn yr eglwys; eglwys yr oedd ef ei hun wedi'i hadeiladu. Yno byddai'n sôn am Iesu Grist a byddai'r bobl yn cael cyfle i ganu emynau a dysgu darllen y Beibl.

Erbyn hyn mae project y Ffrind Da (Akamason) wedi codi dros 20 o bentrefi, gydag oddeutu 20,000 o deuluoedd yn cyd-fyw. Mae dros naw mil o blant yn mynychu'r ysgolion ac mae'r oedolion yn cael cyfle i ddysgu crefftau newydd ynghyd â dysgu ffarmio'r tir. Yn ôl y Tad Pedro, "Doedd gen i ddim cynlluniau aruchel. Roedd gweld pobl yn eu tlodi yn galw arnoch i weithredu. Doedd dim amser i feddwl. Roedd yn rhaid gofalu am y bobl hyn."

Adnod: "Bûm yn ddieithr ac ni chymerasoch fi i'ch cartref..." Mathew 25:43

Gweddi: Boed i Dduw ein bendithio â dagrau dros y rhai sydd mewn tlodi yn ein byd heddiw, fel y gallwn roi llaw i'w helpu. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n credu fod y bobl wedi eu siomi pan ddaeth y Tad Pedro atyn nhw?
- Beth oedd yn gwneud y Tad Pedro yn ddyn mor arbennig?